

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 1af 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Gary Thomas, Eifion Davies a'r clerwr.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo V. Evans, Gwenda Morris, Eilir Rowlands, Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

i) Casgliadau ailgylchu ar gyrion pentref Llanfor - cafwyd cadarnhad y byddai'r gweithlu yn cael eu hatgoffa i gasglu'r deunydd ailgylchu ar y safleoedd yma.

ii) Trwsio'r wal a gosod giatiaau newydd o flaen y stad dai Tan y Foel yn Llanfor - cafwyd cadarnhad y byddai'r gymdeithas tai yn archwilio'r wal ac yn gwneud archeb ar gyfer y gwaith.

iii) Tyllau yn y ffordd ger maes parcio Ysgol Bro Tryweryn - adroddwyd fod y tyllau wedi cael eu llenwi.

iv) Cais am arwydd i Gwm Main ar gyffordd y A494 yng Nghefnddwysarn - derbyniwd neges gan is-adran rheoli trafniadaeth y Llywodraeth yn cydnabod ein cais ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gael cadarnhad gan Gyngor Gwynedd ynglyn a rhai pwyntiau er mwyn iddynt gael ystyried y cais. Adroddodd y clerwr ei bod wedi anfon at Gyngor Gwynedd ac yn aros am eu hymateb.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

i) Cyfoeth Naturiol Cymru – diweddariad ar eu Cynllun Adnoddau Coedwig Llanfor a Chelyn.

ii) Triathlon Bala 2021 - derbyniwyd e-bost gan y trefnwyr yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer y triathalon. Cytunwyd nad oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r trefniadau a chyflwynwyd.

iii) Cyngor Gwynedd – Gwybodaeth am grant i gefnogi chwarae plant. Cytunwyd i anfon yr wybodaeth i'r pwyllgorau caeau chwarae.

iv) Llywodraeth Cymru – Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972' ar gyfer 2021-22.

v) Cyngor Gwynedd - Chopi o'r hysbyseb ynglŷn â'r bwriad i gau'r ffordd yng Nghwmtirmynach ar y 4/1/21. Gofynnwyd i'r clerwr wneud ymholiadau am yr union waith a oedd angen ei wneud gan Openreach ac os oedd wir angen cau'r ffordd yn gyfan gwbl gan y byddai'r gwyriad yn achosi trafferth i nifer o yrwyr.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Dim ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

vi) Materion Ariannol.

a) Adolygu cyflog y clerwr.

Gan fod cynlleied o gynghorwyr yn bresennol cytunwyd i'w adael a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

b) Cyllideb a Praesept 2021/22.

Eto gan fod cynlleied o gynghorwyr yn bresennol cytunwyd i'w adael a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Hyd-Rhag), TWE, HG Webb Designs (gwefan), Cyngor Gwynedd (Archwiliad Mewnol), ICO- taliad trwy'r banc.

vii) Materion lleol.

a) Derbyniwyd y materion isod:-

i) Sgip a sbwriel wedi ei adael o flaen y Llythyrdy, Glanrafon - roedd y clerc wedi derbyn galwad ffôn gan un o drigolion y pentref ynglŷn â'r llanast. Roedd y sbwriel yn cael ei chwythu o gwmpas y tai cyfagos ac roedd pryder y byddai'n denu llygod mawr. Adroddwyd y mater i Adran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd a oedd wedi cysylltu â'r perchennog ac roedd y sgip wedi cael ei gasglu.

ii) Dŵr yn llifo ar draws yr A494, cyn Braich Ddu - gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd gan fod dŵr yn parhau i lifo ar draws y ffordd. Nodwyd hefyd nad oedd y cwynion am y wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn a'r difrod i'r wal yn Tŷ Nant wedi derbyn sylw eto chwaith.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Ionawr
26ain am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.**